**Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru**
**Cofnodion y 5fed Cyfarfod**

20 Mehefin 2011, Swyddfa CCGC, Y Drenewydd

**1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**
**Yn bresennol**: Liz Halliwell (CCGC - Cofnodion), Rob Strachan (AyrA), Matthew Ellis (CCGC), Jean Matthews (CCGC - Cadeirydd), Ceri Morris (CCGC – MISE), Jenny MacPherson (CCGC – MISE), Lizzie Wilberforce (WTSWW), Steve Lucas (YCY), Ian Danby (BASC), Mike Bruford (Prifysgol Caerdydd), Brenda Mayle / Alice Broome (Forest Research – dros y ffôn).

**Ymddiheuriadau**: Rob Parry (WTSWW), Iolo Lloyd (CCC), Nida Al-Fulaij (PTES), Sarah Bird (Sw Caer), Isabel Macho (Cyngor Sir Gâr), Kate Williamson (Cymdeithas y Mamaliaid), Paul Sinnadurai (BBNPA), Adrian Lloyd Jones (YNGC), Henry Schofield (VWT),

Diweddariadau sefydliadol:
CCGC – gwaith yn parhau ar ddatblygu corff amgylcheddol sengl yng Nghymru.
AyrAC – AyrAC yn debygol o gael ei wahanu o weddill AyrA erbyn diwedd y flwyddyn.
Forest Research – mae gostyngiad mewn ariannu gan y Llywodraeth wedi arwain at ailwerthuso blaenoriaethau ymchwil. Ni fydd effeithiau ar gynefinoedd llysysyddion yn cael eu hariannu mwyach o fis Ebrill 2012. Bydd gwaith ar rywogaethau estron yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar wiwerod llwyd. Felly, yr unig waith anifeiliaid asgwrn cefn i dderbyn ariannu craidd fydd gwiwerod llwyd.
BASC – y Swyddog Greenshoots yw Audrey Watson bellach (mae Alex Hatton wedi gadael BASC).

**2. Diweddariad ar Brosesau CGB**
**Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau –** gohiriwyd y cyfarfod diweddaraf i alluogi ystyried ceisiadau yn y Gronfa Grant Bioamrywiaeth sydd ar ddod.
Mae RSPB yn cydlynu gwaith i ddatblygu arweiniad ar adnabod rhywogaethau â blaenoriaeth y mae angen gweithredu ar gynefinoedd i'w hadfer. Mae matricsau cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu datblygu i asesu gofynion cynefinoedd rhywogaethau.
**Grŵp Ecosystemau Coetiroedd** –yn cwrdd yn ddiweddarach yr wythnos hon a bydd yn ystyried y matrics rhywogaethau coetir.
**FfAN –** cyhoeddiad gan y Gweinidog yr wythnos ddiwethaf bod y Llywodraeth newydd yn parhau i gefnogi FfAN a bydd yn peilota'r ymagwedd mewn prosiectau lleol. Mynegwyd pryderon gan aelodau FfGBMC ynghylch sut y byddai'n bosib peilota rhywbeth pan nad oedd yr ymagwedd FfAN wedi cael ei chwblhau.

**3. Glastir**
Mae'r adolygiad o'r Elfen Cymru Gyfan bellach wedi'i gwblhau ac mae staff GT bellach yn gweithio ar roi'r newidiadau ar waith. O ganlyniad i hyn mae'r hyfforddiant i reolwyr contract a drefnwyd ar gyfer y gwanwyn/haf wedi cael ei ohirio. Mae

gwaith yn parhau ar y taflenni gwybodaeth i ffermwyr ac arweiniad i reolwyr contractau.

**4. Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy**

Cyflwynodd CM a JMcP y prosiect MISE (www.mise.ie). Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon yn cynnwys:

- arolwg ffwlbartiaid gan ddefnyddio rhai a laddwyd ar y ffordd, yn benodol i lenwi rhai o'r bylchau mewn arolygon blaenorol
- arolygon tiwbiau gwallt o garlymod a gwencïod
- cynlluniau blychau nythu pathewod (mae 22 o safleoedd NDMP yng Nghymru ar hyn o bryd, hoffai PTES tua 40 i alluogi tueddiadau ar lefel Cymru)
- arolygon arfordirol o ddyfrgwn (yn enwedig Ceredigion) ac o bosib arolwg o Afon Dyfrdwy
- diwrnod arolwg gwiwerod coch ym Mryn Arau Duon yng Nghanolbarth Cymru
- deiet ystlumod – dadansoddiad DNA o faw i bennu deiet. Bydd data'n cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin i asesu newidiadau dros amser gyda newid yn yr hinsawdd.
- llygod y cynhaeaf - hyfforddi  gwirfoddolwyr arbenigol i gydlynu arolygon o nythod yn yr hydref

**5. Geneteg a Chadwraeth Mamaliaid Cymru**

Cyflwynodd Mike Bruford o Brifysgol Caerdydd ConGRESS – porth gwe cymunedol i ddarparu adnoddau ar gyfer rheolwyr cadwraeth a'r rhai sy'n llunio polisi (Adnoddau Geneteg Cadwraeth ar gyfer Goroesiad Rhywogaethau Effeithiol).
http://www.congressgenetics.eu – sylwer bod y wefan wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.
Creodd ConGRESS holiadur i asesu i ba raddau y mae pobl yn teimlo bod geneteg yn berthnasol i'w gwaith. Caiff y canlyniadau eu postio ar y wefan.
Ar hyn o bryd nid yw'r prosiect ConGRESS mor weithredol yn y DU gan fod prosiect Cyfnewid Gwybodaeth NERC wedi bod yn cyflawni ymchwil debyg (cynrychiolwyr CCGC gan Barbara Jones).
**PG1 – LHa/JM i adnabod pwy sydd wedi cymryd lle Barbara wrth gynrychioli CCGC ar brosiect Cyfnewid Gwybodaeth NERC**

Prosiectau Prifysgol Caerdydd:
Dyfrgwn – poblogaethau unigryw wedi'u hadnabod ar lefel y DU gan ddefnyddio geneteg. Mae'r boblogaeth yng Nghymru'n torri i lawr i 3 is-boblogaeth – Gogledd Cymru, De-orllewin Cymru a Dwyrain Cymru a’r Gororau.
Ffwlbartiaid – dadansoddiad o DNA 'ffwlbartiaid' i ymchwilio i ba raddau y mae croesrywedd rhwng ffuredau gwyllt a ffwlbartiaid wedi dangos y ceir cryn dipyn o fewnfynediad.
Mae llawer o ddata'n dod i'r amlwg yn dangos bod y rhywogaeth yng Nghymru ac Iwerddon yn unigryw i weddill Yr Alban/Lloegr. Mae cyfoeth ac amrywiaeth geneteg dyfrgwn yn gyfan gwbl yn y gorllewin. Deuir o hyd i'r haploteipiau yn nwyrain y DU trwy gydol Ewrop hefyd.

Trafodaeth o faterion:

Mae gan geneteg lawer i'w chynnig i gadwraeth famaliaid. Ond mae angen mwy o drafodaeth ar yr hyn sy'n bosib yn dechnegol. Er enghraifft, mae MB wedi gweld ei fod yn anodd iawn i adnabod dyfrgwn unigol yn geneteg os ydynt wedi bod yn bwydo ar salmonidau.
**PG2 – LHa/JM i drafod dadansoddiad DNA dyfrgwn gyda WIT**

Teimlwyd bod angen ymchwilio i sut y byddai'n bosib ymchwilio i sut y byddai'n bosib hwyluso prosiectau geneteg cost isel budd uchel.

Nododd BM fod Lisa Signorile yn cyflawni astudiaeth PhD ar geneteg gwiwerod llwyd.

**6. Diweddariadau prosiect**
Cylchredwyd diweddariadau cyn y cyfarfod gan CCGC, AyrAC, WTSWW a BASC
Bydd unrhyw ddiweddariadau ychwanegol yn cael eu hanfon allan gyda'r cofnodion.

**7. Prosiectau Mamaliaid â Blaenoriaeth**
Cyflwynodd Alice Broome brosiect FR sydd wedi dod i'r casgliad y gall rheolaeth ar adeileddau a nodweddion cynefinoedd ddarparu ar gyfer rhywogaethau coetir â blaenoriaethau lluosog (‘niches for species’). Nawr, hoffai FR adnabod unrhyw feysydd le mae rheolaeth ar goetiroedd yn cael ei chyflawni ac mae nodweddion micro-gynefin yn cael eu hasesu.
**PG3 – AB i gylchredeg rhai cwestiynau penodol i FfGBMC ar y mathau o brosiectau rheoli coetiroedd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.**

*[Gweler y nodiadau yn yr Atodiad o'r drafodaeth o brosiectau â blaenoriaeth gan JMa, LH a KW yn dilyn Cam Gweithredu 10 y cyfarfod blaenorol wrth iddynt bennu'r cyd-destun ar gyfer y drafodaeth.]*
<u>Arolwg Pathewod o Geredigion</u>
Mae'n debygol y bydd yr angen am arolwg ychwanegol yng Ngheredigion yn cael ei ddiwallu trwy weithgareddau presennol megis y prosiect MISE ac arolygon WTSWW. Mae JMcP yn cwrdd â'r swyddog CGBLl yng Ngheredigion a hefyd gyda WTSWW i drafod safleoedd newydd ar gyfer monitro pathewod. Mae opsiynau ar gyfer arolygon pathewod yn cynnwys helfeydd cnau, cynlluniau blychau nythu a thiwbiau nythu mewn gwrychoedd. Mae WTSWW wedi defnyddio diwrnodau helfeydd cnau dwys lle mae gwirfoddolwyr yn cyflawni helfeydd canu pathewod fel arolwg cydlynol ar un diwrnod. Mae'r arolwg hwn wedi'i dargedu'n fwy ac yn galluogi gwirio cnau a gesglir ar unwaith.
Roedd VWT wedi bwriadu cynnal diwrnod/cynhadledd pathewod yng Nghymru. Cytunwyd y byddai hwn yn ddigwyddiad gwerthfawr ac y gallai gael ei gydlynu, efallai, gan MISE.
Nododd ID fod y prosiect pathewod yn Swydd Gaer yn nyffryn Wych wedi derbyn ariannu treth tirlenwi i wella cysylltiad â'r cynefin o'r safle ailgyflwyno (swydd 4 diwrnod yr wythnos am 2 flynedd). Mae'r prosiect yn anelu at greu rhwydwaith cynefinoedd 17km o'r safle ailgyflwyno ac yn defnyddio arweiniad prosiect 'Gwrychoedd ar gyfer Pathewod' PTES.

**PG4 – cytunodd LHa i goladu gwybodaeth am waith pathewod (diweddaru'r map dosbarthiad ar gyfer Cymru a gwirio gorgyffwrdd a bylchau) i'w ddosbarthu i bartneriaid**

Llygod y dŵr
Yn dilyn Cam Gweithredu 5 y cyfarfod nesaf, adnabuwyd bod ariannu Interreg yn annhebygol o fod yn ffynhonnell ariannu addas ar gyfer rheoli mincod gan fod y rownd ymgeisio derfynol yn canolbwyntio ar greu swyddi ac nid oes ganddi amcan bioamrywiaeth. Er hynny, nodwyd bod y cynllun Life+ Ewrop wedi derbyn dim ond ychydig o sylw yn y DU ac y gallai fod yn opsiwn. Ystyriodd cyfarfod diwethaf Grŵp Gwiwerod Coch y DU gais i Life+ a bydd yn ymchwilio ymhellach i hyn. Awgrymwyd y gellid datblygu prosiect INNS gwiwerod llwyd a mincod ar y cyd.
**PG5 – Rob Parry i gydlynu Grŵp Tasg a Gorffen i ymchwilio i gyfleoedd ariannu ar gyfer rheoli mincod. Eraill a fydd yn cymryd rhan - Jean Matthews, Rob Strachan, Ian Danby**

Nododd ID fod Craig Shuttleworth yn edrych ar brosiect i ddadansoddi data o Ynys Môn i asesu faint o ymdrech y byddai ei hangen i reoli gwiwerod llwyd er budd y rhai coch. Roedd y syniad ar gyfer y prosiect hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad geneteg. Gallai'r gwaith hwn fod yn berthnasol i brosiectau rheoli mincod.

Mae'r Prosiect Cronfa Ddata a Mapio Llygod y dŵr Cenedlaethol ar gael gan Hampshire WT (Natalie Rogers) – cyflawnwyd y gwaith hwn ar gyfer y Grŵp Llywio WV Cenedlaethol.

**PG6 – ME i anfon dolen allan i wefan a phorth GB INNS**

Ystlumod coetir prin
Nid yw Pwynt Gweithredu 6 o'r cyfarfod diwethaf, i JM, SL a HS gwrdd i drafod syniadau ar gyfer Ystlumod coetir prin, wedi'i gwblhau eto.

Mae gan Jean Matthews gopi o'r model addasrwydd cynefinoedd ar gyfer ystlumod du a grëwyd gan Matt Zeale o Brifysgol Bryste. Fodd bynnag, ceir problemau wrth redeg y model ar gyfrifiaduron eraill. Mae canlyniadau'r model ar gyfer Cymru'n awgrymu y ceir ychydig iawn o gynefin ar gyfer ystlumod du yng Nghymru, ond mae hyn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth gyfredol o'r math o goetir y mae ei angen ar farbastelod.

Mae WTSWW newydd adnabod Gogledd Sir Benfro ac Aberteifi fel ardal â blaenoriaeth uchel ar gyfer prosiect ar raddfa tirwedd, felly gallai fod cyfleoedd ar gyfer elfen ystlumod yn y prosiect hwn.

Ystlumod pedol lleiaf
Y cam nesaf yn y prosiect Landscapes for Lessers yw darparu'r model addasrwydd cynefinoedd i ardaloedd eraill ei ddefnyddio.

Llygod y cynhaeaf
Bydd y prosiect MISE yn cydlynu arolygon o nythod llygod y cynhaeaf ac yn treialu potiau abwyd hefyd lle dadansoddir baw yn geneteg i bennu'r rhywogaeth.

Awgrymodd RS y dylid cysylltu â Sw Caer i hyfforddi gwirfoddolwyr arbenigol, yn Sw Caer ac o'i gwmpas yn ôl pob tebyg. Nodwyd mai mis Hydref yw amser gorau'r flwyddyn ar gyfer arolygon o nythod. Gall fod modd hefyd i'r Swyddogion Prosiect MISE greu pecyn arolwg (canllawiau arolwg etc) y gellir ei ddefnyddio y tu allan i'r ardal Interreg hefyd.

Gwiwerod coch
Cynhelir digwyddiad arolwg MISE ym Mryn Arau Duon yng Nghanolbarth Cymru ar 13 Awst. Gofynnir i wirfoddolwyr cerdded ar hyd trawsluniau wedi'u habwydo ymlaen llaw i chwilio am wiwerod. Os yw'n llwyddiannus gellir cyflwyno'r ymagwedd hon ar safleoedd eraill. Mae gwaith yn cael ei gynllunio hefyd yng Nghlocaenog ac mae'n bosib y caiff yr arolwg tiwbiau gwallt yng Nghynwyd ei ailadrodd. Mae APCE yn gwneud gwaith arolwg tiwbiau gwallt yn Aberhirnant a Chwm Mynach.

Rhyngweithio ystlumod trwyn pedol mwyaf a thrwyn pedol lleiaf
JM i drafod prosiect posib gyda HS a SL. Mae gan CCGC beth data ar y ffurflenni monitro YPLl, ond byddai angen i rywun fynd trwy hyn i'w dynnu allan.

Gwrychoedd ar gyfer pathewod
Mae MISE yn bwriadu gwneud peth gwaith gyda pherchnogion tir i wella gwrychoedd ar gyfer pathewod ac felly cysylltedd rhwng coetiroedd. Cynllunnir y gwaith hwn ar gyfer blynyddoedd 3 a 4.

Dyfrgwn ar Afon Dyfrdwy
Hoffai CGBLl Wrecsam gynnal arolwg o ddyfrgwn ar Afon Dyfrdwy gan ddefnyddio dadansoddiad DNA o faw i adnabod nifer y dyfrgwn unigol a'u dosbarthiad. Gall fod materion o gwmpas y gallu i adnabod unigolion o faw y mae angen cael eglurhad arnynt mor fuan â phosib. Dylai fod yn bosib diffinio poblogaethau o genoteip rhannol, ond nod gwahaniaethu rhwng unigolion a pherthnasau. Nododd ME hefyd y dylai'r prosiect gwmpasu ardal gyfan dalgylch Afon Dyfrdwy yn ddelfrydol, nid ardal Wrecsam yn unig.

Prosiectau eraill
Gofynnodd MB am ffwlbartiaid. Nododd JM yr oedd y grŵp wedi ystyried yn flaenorol bod ffwlbartiaid yn flaenoriaeth isel gan fod eu statws yn dda yng Nghymru. Er hynny, mae mewnfynediad rhwng ffwlbartiaid a ffuredau'n golygu bod ffwlbartiaid sy'n bur yn geneteg yn llawer mwy prin mewn gwirionedd.
**PG7 – MB i anfon data at JM/LHa ar geneteg ffwlbartiaid a hefyd manylion ble i anfon unrhyw samplau o ffwlbartiaid marw.**

Arian grant Amgylchedd Cymru
Awgrymodd ME y dylai'r grŵp fod yn ystyried prosiect statws cadwraeth famaliaid ar lefel siroedd - yn debyg i'r prosiect herp.
Awgrymodd ID y gellid cyflwyno cais am faglau a rafftiau mincod ychwanegol er mwyn medru estyn prosiect rheoli mincod Llŷn. Cytunwyd y byddai hwn yn cael ei ystyried yn brosiect FfGBMC â blaenoriaeth uchel.

**8. Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod ar 17 Chwefror 2011**.
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.

*Camau Gweithredu o'r cyfarfod ar 17 Chwefror 2011*

| | | Gan bwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 1 | Awgrymiad y dylai asiantaethau statudol gael ymweliad NERC | LH/JM | Mae neges wedi'i hanfon |
| 2 | TL i gylchredeg 'diagram corryn' cyflwyno CGB | JM | Mae Jean wedi'i dderbyn a bydd y ei anfon allan gyda'r cofnodion. |
| 3 | Cytuno ar lwybr cyfathrebu effeithiol i CGBLl gyda Sean McHugh a rhoi cofnodion a chytundebau partner ar wefan PBC. | JM LHa | Ar waith |
| 4 | Adnabod cyswllt CGBLl allweddol sy'n fodlon cynrychioli CGBLl Cymru mewn cyfarfodydd FfGBMC | LH/JM | Cysylltwyd ag Isabel Macho a Kate Taylor. |
| 5 | Ymchwilio i gyfleoedd Interreg ar gyfer ariannu rheolaeth strategol ar finc | JM/RS | Interreg heb fod ar gael mwyach |
| 6 | HS/JM/SL i ddatblygu syniadau ar gyfer cam cyntaf prosiect ystlumod coetir prin. | PAWB<br><br>LH | Cario drosodd<br>**PG8** |
| 7 | HS i anfon manylion y gweithdy pathewod at LHa | LH | JMcP i ymchwilio i redeg gweithdy fel rhan o'r prosiect MISE<br>**PG9** |
| 8 | Llunio rhestr o brosiectau, cylchredeg i FfGBMC am sylwadau ac yna anfon ymlaen at GARh. | LH/JM | Parhaus |
| 9 | Arweinwyr Rhywogaethau i siarad ag Arweinwyr Gweithredu a phawb i edrych ar gamau eraill ar y daenlen targedau/camau gweithredu i adnabod prosiectau eraill a all fod yn barod i fynd wrth i gyfleoedd ariannu godi. Mae angen cyflwyno camau gweithredu o hyd. Sut? | Holl arweinwyr rhywogaeth au | Parhaus |
| 10 | Ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen i adnabod camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer CGBLl. Gwahoddir unrhyw un arall i ymuno. | JM, LH a KW | Cam cyntaf wedi'i gwblhau |
| 9 | Drafftio adroddiad ar waith 2010/11 ar gyfer y cyfarfod nesaf. | JM | Cario drosodd **AP10** |

**9. Unrhyw fusnes arall**
Dim byd

**10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Dydd Mercher 12 Hydref 2011 – adolygu targedau/camau gweithredu
Dydd Mercher 29 Chwefror 2012

**Negeseuon Allweddol o'r cyfarfod**

1. Mae angen ystyried p'un a yw'r wybodaeth rydym yn ei dal yn ddilys, yn enwedig pan fyddwch yn cymryd geneteg i ystyriaeth. Beth yw poblogaethau?
2. Gall fod angen ailystyried statws cadwraeth ffwlbartiaid
3. Mae angen parhau i ddatblygu prosiectau â blaenoriaeth, gan fanteisio ar adnoddau, gan gynnwys gwirfoddolwyr, pan fyddant ar gael.

Atodiad

**FfGBMC - Prosiectau â Blaenoriaeth ar gyfer CGBLl**
Pwynt Gweithredu 10 y Cyfarfod ar 17 Chwefror

Arolwg Pathewod o Geredigion – helfeydd cnau – gallai fod angen gwirio adnabyddiaeth cnau – pwy all gynnig hynny. Gallai fod yn addas ar gyfer ardaloedd CGBLl eraill.

Llygod y dŵr – defnyddio map o safleoedd cenedlaethol a rhanbarthol i amlygu ardaloedd lle mae rheoli mincod yn flaenoriaeth. Mae angen i CGBLl fod â chopi i'w helpu i flaenoriaethu gwaith gan gynnwys diweddaru arolygon neu fonitro pan fydd angen.
Hefyd, mae angen cael gwybod ble mae camau rheoli mincod yn cael eu cymryd ac a oes unrhyw fylchau wrth ymdrin â meysydd â blaenoriaeth. Gellid defnyddio profiad gwaith neu wirfoddolwr hir dymor i goladu gwybodaeth (naill ai yn CGBLl neu WT?)

(Ffrwd ariannu Interreg bellach yn canolbwyntio ar greu swyddi, er nad ydym wedi gwirio p'un a fyddai hynny'n briodol, e.e. trwy reolwr/ceidwad cefn gwlad neu fuddion genweirio - byddai'n ddefnyddiol cael mewnbwn gan BASC yma. Mae ariannu Life+ yn bosibilrwydd ac mae angen ei ystyried yn fanwl. Mae cyfran y DU o Life+ wedi denu lefel isel o ddiddordeb hyd yma).

Ystlumod coetir prin
Nid yw HS/JM/SL wedi cwrdd i drafod.
Gellid adnabod ardaloedd CGBLl/Grwpiau Ystlumod gyda'r potensial uchaf a chyda gwirfoddolwyr brwd a rhai sy'n brofiadol. Gellid defnyddio dadansoddiad ffactor niche Matt Zeale i adnabod coetiroedd ystlumod du posib i grwpiau ystlumod lleol eu harolygu. Ar ôl i ystlumod du gael eu lleoli gan ddefnyddio synwyryddion ystlumod, gellid cyflawni gwaith maglu i chwilio am ystlumod coetir prin eraill megis ystlumod Bechstein - (mae gan ystlumod du a Bechstein ofynion coetir tebyg) a Myotis alcaothoe.
Byddai prosiect ystlumod coetir prin yn gyfle da i gynnwys gwirfoddolwyr, a fyddai'n addas ar gyfer ariannu gan Amgylchedd Cymru. Mae angen creu cyswllt â'r Grŵp Ecosystemau Coetiroedd oherwydd materion rheoli coetiroedd.

Cyfleoedd hir dymor - mae prosiect Defra i ddod o hyd i fethodoleg ar gyfer arolygon a monitro ystlumod coetir prin sy'n addas i wirfoddolwyr, ond ni fyddant yn adrodd am beth amser (blynyddoedd?)

Ystlumod pedol lleiaf – yn gweithio gyda Chofnod i gael grwpiau ystlumod lleol i gadarnhau data i ddiweddaru'r model addasrwydd cynefinoedd. Ni fydd yn barod ar gyfer y rownd ariannu hon, ond mae angen datblygu prosiect ar gysylltedd cynefinoedd ar gyfer yr amser pan fydd yn barod.

Llygod y cynhaeaf – ydyw'n rhan o swyddi swyddogion MISE i baratoi pecyn arolwg a threfnu sesiynau hyfforddiant ar gyfer misoedd Medi/Hydref? Gall LBAP gyflawni arolygon ym misoedd Hydref/Tachwedd (Rhagfyr o bosib os yw'r tywydd yn addas). Safleoedd posib ar gyfer hyfforddi - Harlech, Swydd Gaer, Ynys Las – eraill y gwyddys amdanynt yng nghanolbarth, de Cymru (Rob P?).

Gwiwerod coch – digwyddiad MISE ym mis Gorffennaf neu Awst. Os yn llwyddiannus, gellid gwneud rhywbeth mewn ardaloedd gwiwerod coch ffiniol.

Prosiectau posib eraill
Rhyngweithio ystlumod trwyn pedol mwyaf a thrwyn pedol lleiaf. Nododd HS bryderon ynghylch YPM yn disodli YPLl pan fyddant yn symud i glwydi yn yr haf. Gellid cael rhywun i fynd trwy nifer y clwydi haf lhb a gafodd eu cyfrif a chwilio am ddata - prosiect posib i fyfyriwr.

Gwrychoedd ar gyfer pathewod - byddai'n ddefnyddiol i ddiweddaru'r map dosbarthiad ar gyfer Cymru. Mae angen cyswllt â chronfa ddata pathewod PTES.

Dyfrgwn – mae Emma Broad (swyddog CGBLl Wrecsam) wedi cynnal trafodaeth â Pete Turner ac mae ganddi awgrymiad ar gyfer prosiect ar Afon Dyfrdwy. Mae Ceri wedi cwrdd ag Emma ac yn credu bod yna botensial da i ddatblygu prosiect. Mae'n bosib i'w ddefnyddio fel cynllun peilot ond mae angen cael gwybod pa fath o wybodaeth y gellir ei chynhyrchu gan ddefnyddio'r dadansoddiad o dna - h.y. yr hyn y gall ei ddweud wrthym am boblogaethau dyfrgwn ac yna penderfyniadau ble i ganolbwyntio.

Prosiectau posib yn y dyfodol – tiwbiau gwallt, platiau troed draenogod yn cael eu treialu.

JM, KW a LH 16 Mehefin 2011